

Rheoli Cyllid Rhywun Arall

Ffeithlen 28

(Medi 2024)

Pwrrpas y ffeithlen hon yw darparu rhywfaint o wybodaeth am y ffyrdd y gall person arall reoli cyllid rhywun arall.

Fel rheol, rydym yn rheoli ein cyllid ein hunain neu'n gofyn i rywun arall ein helpu. Ni all neb reoli cyllid rhywun arall heb ei ganiatâd. Fodd bynnag, bydd yna gyfnodau pan na fydd gan y person sydd fel arfer yn rheoli ei gyllid y gallu meddyliol i wneud hynny mwyach. Pwrrpas y ffeithlen hon yw rhoi rhywfaint o arweiniad ar ba gamau y gellir eu cymryd pan fydd hyn yn digwydd.

Os yw person yn gwybod ei fod yn debygol o golli'r gallu meddyliol i reoli ei gyllid yn y dyfodol, y peth gorau y gall ei wneud yw cwblhau dogfen o'r enw atwrneiaeth arhosol o ran cyllid ac eiddo. Mae'r ddogfen hon yn nodi pwy y mae'r person yn dymuno ei gael i reoli ei gyllid yn y dyfodol. Mae gan Lywodraeth y DU wefan sy'n rhoi arweiniad pellach ar sut i wneud atwrneiaeth arhosol <https://www.gov.uk/government/collections/lasting-power-of-attorney-forms>

Penodeiaeth

Os nad yw person wedi dewis rhywun arall i reoli ei gyllid cyn iddo golli'r gallu meddyliol i wneud hynny, yna mae yna opsiwn neu ddau y gellir eu cymryd fel y gall rhywun arall reoli ei arian. Os nad oes gan yr unigolyn swm sylweddol o arian yn y banc/cymdeithas adeiladu/bondiau premiwm ac ati, a'r unig beth sydd ei angen mewn gwirionedd yw penodi rhywun i reoli ei bensiwn/budd-daliadau gwladol (ac mewn rhai achosion ei bensiwn gwaith), mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn caniatáu i rywun gael ei benodi. Bydd y sawl a benodir dim ond yn casglu ac yn gweinyddu buddion yr unigolyn hwnnw. Fodd bynnag, nid yw'n caniatáu i'r unigolyn hwnnw reoli holl gyllid y person arall. I gael rhagor o wybodaeth am benodeiaeth, ewch i <https://www.gov.uk/become-appointee-for-someone-claiming-benefits>

Dirprwyaeth ar gyfer Eiddo a Chyllid

Os oes gan berson ddigon o arian yn y banc/cymdeithas adeiladu neu fondiau premiwm neu eiddo ac ati ac y mae'n angenrheidiol i rywun gael mynediad at yr arian hwnnw a'i incwm megis budd-daliadau a phensiynau ac ati, yna efallai y bydd hi'n bosibl gwneud cais i lys (a elwir y Llys Gwarchod) er mwyn sicrhau bod rhywun yn cael ei benodi'n Ddirprwy i reoli materion ariannol y person arall. Fel y penodeiaeth uchod, gellir ond penodi unigolyn yn Ddirprwy dros eiddo rhywun arall os nad oes gan y person y gallu meddyliol i reoli ei faterion ariannol ei hun. Yn ogystal, ni ellir penodi dirprwy os yw person eisoes wedi gwneud atwrneiaeth arhosol ddilys, fel y disgrifir uchod, neu atwrneiaeth barhaus. Wrth wneud cais am ddirprwyaeth, rhaid hefyd ystyried bod hynny er budd gorau'r unigolyn.

Os nad oes angen i berson ymwneud yn barhaus â chyllid unigolyn, er enghraifft os mai'r unig ased sydd ganddo yw eiddo ac y mae angen ei werthu, efallai na fydd gwneud cais am ddirprwyaeth yn briodol. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n bosibl gofyn i'r Llys Gwarchod am orchymyn i awdurdodi'r gwerthiant yn lle. Byddai hyn hefyd yn berthnasol os oes angen awdurdod ar rywun i derfynu tenantiaeth.



Pwy ddylai wneud cais am Ddirprwyaeth ar gyfer Eiddo a Chyllid?

Mae'n well gan y Llys Gwarchod mai aelodau o'r teulu neu ffrindiau sydd bob amser yn gwneud cais am Ddirprwyaeth. Gall y syniad o wneud cais i'r Llys beri cryn bryder weithiau. Y peth cyntaf i'w ddweud yw ei bod hi'n dra annhebygol y bydd yn rhaid i chi fynychu'r llys fel aelod o'r teulu neu ffrind. Yn achos mwyafrif y ceisiadau o'r fath, caiff penderfyniad ei wneud heb ichi orfod wynebu barnwr. Er mwyn gwneud cais, mae'n rhaid llenwi rhai ffurflenni, ac fel aelod o'r teulu rydym yn gwerthfawrogi y gall hyn gymryd cryn dipyn o amser ac nid yw'r ffurflenni bob amser yn hawdd i'w llenwi. O ganlyniad, bydd ein tîm cydymffurfio ac archwilio gwasanaethau cymdeithasol yn eich helpu i lenwi'r ffurflenni a sicrhau bod y ffurflenni cywir yn cael eu hanfon i'r llys.

Pryder arall i deuluoedd a ffrindiau yw bod ffi'r llys yn cael ei chodi am wneud cais ac mae'r ffi honno'n ddrud iawn. Y broblem yw bod angen i chi fod yn ddirprwy er mwyn cyrchu cyfrif banc yr unigolyn, ond ni allwch fod yn ddirprwy oni bai eich bod yn talu ffi'r llys. Rydym fel awdurdod lleol yn gallu cynnig help i deuluoedd drwy sicrhau bod benthyciad ar gael er mwyn talu am ffi'r llys. Mae'r aelod o'r teulu sy'n gwneud cais yn cael benthyc yr arian a bydd yr aelod hwnnw'n ad-dalu'r benthyciad dim ond pan fydd y gorchymyn dirprwyaeth wedi'i wneud neu pan fydd aelod y teulu'n penderfynu peidio â mynd ymlaen â'r cais ymhellach, neu pan fydd yr awdurdod lleol yn mynnu ad-daliad. Os na chaiff y benthyciad ei ad-dalu cyn pen 30 diwrnod o'r diwrnod dyledus, bydd yr awdurdod lleol yn codi llog.

Bydd yr awdurdod lleol dim ond yn cynnig benthyciad os cydymffurfir ag amodau penodol:

1. Nid oes gan y person yr ydych yn dymuno rheoli ei gyllid/a neu eiddo y gallu meddyliol i reoli ei gyllid ei hun.
2. Nid yw'r person wedi gwneud atwrneiaeth ddilys o roi awdurdod i rywun arall reoli ei gyllid;
3. Mae gan yr unigolyn nad yw'n gallu rheoli ei gyllid mwyach ddigon o arian i gyfiawnhau gwneud cais am ddirprwyaeth (bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu a oes digon o arian ganddo);
4. Mae'n rhaid bod yr unigolyn, nad yw bellach yn gallu rheoli ei gyllid a/neu eiddo, yn derbyn gofal a chefnogaeth gan yr awdurdod lleol, trwy gynllun gofal a chymorth.
5. Mae'r awdurdod lleol o'r farn eich bod yn berson priodol i wneud cais am ddirprwyaeth; er enghraifft, ni fyddai awdurdod lleol fel arfer yn ystyried unrhyw un sydd â cholffarnau troseddol am ddwyn, fel un sy'n briodol i wneud cais.
6. Ystyrir bod gwneud cais dirprwyaeth er budd gorau'r unigolyn.
7. Mae tystiolaeth ddigonol yn cadarnhau nad oes gennych yr adnoddau ariannol i dalu ffi'r llys heb gael benthyciad gan yr awdurdod lleol.
8. Rydych chi'n ymrwymo i gytundeb benthyciad gyda'r awdurdod lleol, ac mae copi o'r cytundeb ar gael.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth ar sut y gallwn ni eich cefnogi chi i wneud cais am Ddirprwyaeth, gwneud eich cais yn ysgrifenedig i Tracey Lewis, Rheolwr Archwilio Cyllid a Chydymffurfiaeth, 3 Stryd Spilman, Caerfyrddin SA31 3LE, TLewis@carmarthenshire.gov.uk
☎01267 228850.

Os hoffech gael y daflen hon mewn print bras, Braille neu ar dâp sain, ffoniwch:

☎ 01267 228703

